



**Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer  
Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion  
mewn perygl yn rhanbarth Canolbarth  
a Gorllewin Cymru**

**BWRDD DIOGELU  
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

| <b>Fersiwn</b> | <b>Dyddiad Addasu</b> | <b>Perchennog</b>                          | <b>Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol</b> | <b>Dyddiad Adolygu</b> |
|----------------|-----------------------|--|---|------------------------|
| V1             | 24/1/21               | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 24/1/19   | 24/1/20                |
| V2             | 07/10/22              | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 07/10/21  | 07/10/23               |
| V3             | 23/01/2025            | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 23/01/2024  | 23/01/2026             |



# Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl yn rhanbarth Gorllewin Cymru



## Crynodeb Gweithredol

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth canlynol yn atodol i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac mae wedi'i llunio ar ran Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) a'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS). Lluniwyd y ddogfen mewn ymgynghoriad ag arweinwyr gwasanaethau Diogelu ac arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth o fewn sefydliadau partner CYSUR a CWMPAS ac yn unol â darpariaethau'r canlynol:

- Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf Plant 2004
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008
- Deddf Addysg 2011
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

## Sefydliadau sy'n cymryd rhan:



Cyngor Sir Caerfyrddin



Cyngor Sir Penfro



Cyngor Sir Ceredigion



Cyngor Sir Powys



Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



HM Prison & Probation Service

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF



Heddlu Dyfed Powys

## Nodau:

Pwrpas y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yw:

- **Amddiffyn** plant o fewn eu hardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- **Atal** plant o fewn eu hardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.
- **Amddiffyn** oedolion o fewn eu hardal sydd ag anghenion gofal a chymorth (ni waeth a yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu gan yr Awdurdod Lleol ai peidio), sy'n cae, neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- **Atal** oedolion o'r fath rhag wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

Gyda hyn mewn golwg, nod y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yw:

- rhoi hyder i staff o'r sefydliadau partner rannu gwybodaeth berthnasol lle mai'r diben yw i **amddiffyn** neu **atal** plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-dri, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed;
- cadarnhau y gellir rhannu gwybodaeth at y diben hwn yn gyfreithlon heb gael caniatâd yr unigolyn/teulu;
- esbonio'r math o wybodaeth y dylid ei rhannu, pryd y dylid ei rhannu, a sut orau i'w rhannu;
- atgoffa staff y gall peidio â rhannu gwybodaeth pan fo angen gwneud hynny at y diben hwn, ynddo'i hun beri risgiau i ddiogelwch unigolion;
- darparu un pwynt cyfeirio ar gyfer y manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob sefydliad partner.

## Camau rhannu Gwybodaeth Diogelu:

Bydd sefydliadau partner, bob amser, yn gweithio yn unol â gweithdrefnau diogelu cenedlaethol. Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn esbonio'n fras sut y gellir rhannu gwybodaeth fel rhan o'r broses hon.

### Cyfathrebu Cyn Atgyfeirio.

Mae'r cam rhannu gwybodaeth hwn yn cydnabod y gallai fod angen i weithwyr proffesiynol o sefydliadau partner gyfathrebu â'i gilydd, a thrwy wneud hynny rannu gwybodaeth bersonol a sensitif, i wneud atgyfeiriad diogelu.

Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn dileu nac yn disodli'r rhwymedigaeth statudol i gyfeirio at yr Awdurdod Lleol lle bynnag y nodir pryder, ond mae'n cydnabod y gallai fod angen i weithwyr proffesiynol gyfathrebu ymlaen llaw i gadarnhau neu gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud atgyfeiriad.

### Atgyfeiriadau

Ayfeiriadau at y Gwasanaethau Cymdeithasol lle mae gweithiwr proffesiynol (sy'n gweithio i sefydliadau a enwir yn y ddogfen hon) wedi nodi mater diogelu posibl mewn perthynas â phlentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl.

### Ymchwiliadau

Bydd sefydliadau partner a enwir fel rhan o'r ddogfen hon yn cyfleu gwybodaeth berthnasol i'w gilydd fel rhan o ymchwiliad yn unol â'r prosesau a ddisgrifir mewn gweithdrefnau a gytunir yn genedlaethol. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i asesu lefelau risg i'r unigolion dan sylw a chytuno ar y camau gweithredu mwyaf priodol.

#### **Adroddiad canlyniadau**

Bydd adroddiad yn cael ei lunio gan yr Awdurdod Lleol neu Heddlu Dyfed Powys yn dilyn y drafodaeth ar y strategaeth a fydd yn manylu ar y camau penodol sydd eu hangen. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r sefydliadau partner perthnasol.

#### **Rhannu gwybodaeth 'Atal'**

Dylid nodi bod y term 'diogelu' yn cyfeirio at **amddiffyn** ac **atal** cam-drin, esgeulustod, a mathau eraill o niwed. Yn ogystal ag ymateb i sefyllfaoedd lle mae plentyn neu oedolyn yn amlwg mewn perygl o niwed, mae gan weithwyr proffesiynol ddyletswydd hefyd i weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth berthnasol i atal niwed o'r fath rhag digwydd neu waethygu. Gall hyn gynnwys sefyllfaoedd lle nad yw'r risg o niwed yn glir ar ddechrau ymchwiliad. Fodd bynnag, lle mae arwyddion, awgrym neu risg bosibl o gam-drin neu niwed, bydd gofyn i staff rannu gwybodaeth gymesur a pherthnasol i gadarnhau'r risg honno. Mae hyn yn hanfodol er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch a oes angen ymyrraeth fwy ffurfiol. Bydd rhannu gwybodaeth o'r fath yn dod o fewn cylch gorchwyl 'Diogelu' ac felly gellir ei wneud yn gyfreithlon heb ganiatâd yr unigolyn neu'r teulu dan sylw.

Weithiau ystyrir dewis peidio â rhannu gwybodaeth berthnasol fel yr opsiwn mwy diogel a di-risg gan ei fod yn osgoi risgiau sy'n gysylltiedig â thorri cyfrinachedd. Fodd bynnag, gall peidio â rhannu gwybodaeth berthnasol lle bo angen at y diben hwn beri risgiau niwed i unigolion. Gall achosi oedi ac atal penderfyniadau a chomau gan staff. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â Diogelu mor wybodus â phosibl er mwyn cymryd y camau gorau posibl.

Atgoffir staff i fod yn wyladwrus ond hefyd mor broffesiynol a chydweithredol â phosibl wrth rannu gwybodaeth at ddibenion diogelu. Rhaid cofnodi cyfiawnhad dros wybodaeth a rennir, neu benderfyniadau a wneir i beidio â rhannu gwybodaeth, yn ffeil briodol y cleient/claf.

Bydd yr Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'r holl newidiadau i arferion a phrosesau perthnasol yn ogystal â deddfwriaeth berthnasol a gofynion statudol.

#### **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Gellir darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r wybodaeth ganlynol:

Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn plant sy'n Wynebu Risg: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf>

Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 – Trin achosion unigol i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl: <https://cysur.cymru/media/okjn0po5/180511adultsatriskcy.pdf>

#### **Cyswllt:**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y Protocol Rhannu Gwybodaeth atodedig, cysylltwch â:

**Robert Brain,**  
**Rheolwr Systemau Gwybodaeth, Diogelwch ac Integreiddio,**  
**Cyngor Sir Caerfyrddin**  
**E-bost: [rbrain@carmarthenshire.gov.uk](mailto:rbrain@carmarthenshire.gov.uk)**  
**Ffôn: 01267 246566**

1.17



**Commented [NO1]:** Wales Accord on the Sharing of Personal Information = Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru

Information Sharing Protocol for = Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer

Version = Fersiwn

Date Assured = Dyddiad Sicrhau

Quality Assurance Group = Grŵp Sicrhau Ansawdd

## Wales Accord on the Sharing of Personal Information

### Information Sharing Protocol for

Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Perygl yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Version** 2 (Adolygydd Ionawr 2024, cymeradwywyd gan MAWWSB ar [Dyddiad])

Date Assured Medi 2021 (Fersiwn 1)

Quality Assurance Group Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru y Canolbarth a'r Gorllewin

## Cynnwys

|    |   |                                     |
|----|---|-------------------------------------|
| 1  | Cyflwyniad i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn     | 3                                   |
| 2  | Y sefydliadau rhannu gwybodaeth partner           | 3                                   |
| 3  | Rhwymedigaethau sefydliadol/ymarferwyr penodol    | 4                                   |
| 4  | Pwerau deddfwriaethol/statudol                    | 4                                   |
| 5  | Y wybodaeth bersonol i'w rhannu                   | 9                                   |
| 6  | Hawliau Testunau Data                             | 9                                   |
| 7  | Diogelwch gwybodaeth                              | 12                                  |
| 8  | Adolygiad o'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn      | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| 9  | Atodiad A – Rhestr Termau                         | 14                                  |
| 10 | Atodiad B – Tabl Cyfeirio Gwybodaeth              | 16                                  |
| 11 | Atodiad C – Manylion Cyswllt Atgyfeirio Diogelwch | 21                                  |
| 12 | Atodiad D – Sefydliadau Partner Trydydd Sector    | 24                                  |
| 13 | Atodiad E – Llofnodion Sefydliadau Partner        | 26                                  |

## 1 Cyflwyniad i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn

- 1.1 Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn atodol i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a chytunwyd arno yn dilyn ymgynghoriad rhwng y sefydliadau partner sy'n cymryd rhan.
- 1.2 Bwriad y Protocol hwn yw helpu ymarferwyr i ddeall pa wybodaeth y gellir ei rhannu rhwng y partneriaid rhestredig at y diben(ion) a nodwyd. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod y partneriaid wedi ystyried gofynion deddfwriaeth diogelu data.
- 1.3 Mae'r Protocol hwn wedi'i baratoi i gefnogi rhannu gwybodaeth bersonol yn rheolaidd rhwng sefydliadau partner CYSUR a CWMPAS mewn perthynas â phryderon diogelu am Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion sydd mewn perygl o fewn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.  

CYSUR yw Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n acronym ar gyfer Child and Youth Safeguarding: Unifying the Region a dyma hefyd air Cymraeg arall am sicrwydd. Mae CYSUR yn gyfuniad o'r hen Fyrddau Diogelu Plant Lleol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

CWMPAS yw Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n acronym ar gyfer Collaborative Working and Maintaining Partnership in Adult Safeguarding a dyma hefyd air Cymraeg arall am gylch gwaith. Mae cylch gwaith CWMPAS hefyd yn ymestyn ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.
- 1.4 Rhennir gwybodaeth bersonol at ddibenion cyfathrebu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl er mwyn helpu i nodi pobl sy'n destun niwed neu'n debygol o fod yn destun niwed ac er mwyn rheoli'r risgiau cysylltiedig.

## 2 Sefydliadau partner rhannu gwybodaeth

- 2.1 Mae'r tabl isod yn nodi partneriaid sefydliadol y Protocol Rhannu Gwybodaeth, y pwyntiau cyswllt allweddol a'r adrannau, yr isadrannau a'r timau sy'n fwyaf tebygol o ymwneud â rhannu gwybodaeth at y dibenion a ddisgrifir yn y Protocol hwn.

| Sefydliadau Partner Rhannu Gwybodaeth | Perchennog / Pwynt cyswllt   | Adrannau / Is-adrannau / Timau                                   |
|---------------------------------------|--|--|
| Cyngor Sir Caerfyrddin                | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol</li><li>• Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant</li></ul> | Pob tîm sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant |
| Cyngor Sir Penfro                     | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</li><li>• Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion</li></ul>        | Pob tîm sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant |
| Cyngor Sir Ceredigion                 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</li></ul>  | Pob tîm sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant |
| Cyngor Sir Powys                      | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</li></ul>  | Pob tîm sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant |



|                                   |  |                                   |
|-----------------------------------|--|-----------------------------------|
| Heddlu Dyfed Powys                | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ditectif Uwcharolygydd Amddiffyn Pobl Fregus</li> </ul> | Holl Swyddogion a Staff yr Heddlu |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Arweinydd Diogelu</li> </ul>                            | Diogelu Oedolion a Phlant         |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys        | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarwyddwr Meddygol</li> </ul>                         | Diogelu Oedolion a Phlant         |
| Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | <ul style="list-style-type: none"> <li>Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol – Prawf</li> </ul>       | Uned Gyflenwi Leol - Prawf        |
| Mudiadau Trydydd Sector           | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweler atodiad D</li> </ul>                             | Gweler atodiad D                  |

- 2.2 Mae gan berchnogion / pwyntiau cyswllt yr Protocol Rhannu Gwybodaeth gyfrifoldeb cyffredinol am y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn eu sefydliadau priodol ac felly mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y Protocol yn cael ei ledaenu, ei ddeall a'i weithredu gan ymarferwyr perthnasol.
- 2.3 Bydd perchnogion / pwynt cyswllt pob sefydliad partner yn monitro ac yn adolygu'r defnydd o'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac yn briodol.
- 2.4 Unwaith y bydd y Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi'i sicrhau, bydd pob sefydliad partner yn enwebu llofnodwr i lofnodi'r Protocol yn Atodiad E. Bydd y llofnodwr yn berson priodol o'r sefydliad partner a all lofnodi ar ran y sefydliad.

### 3 Rhwymedigaethau sefydliadol/ymarferwyr penodol

- 3.1 Rhaid adrodd am unrhyw achosion o dorri diogelwch a cyfrinachedd a chamweddau eraill yn ymwneud â'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn unol â gweithdrefnau adrodd digwyddiadau pob sefydliad partner. Dylid ystyried rhannu canlyniad unrhyw ymchwiliad, lle bo hynny'n briodol, gyda phartneriaid eraill y Protocol.
- 3.2 Dylai ymarferwyr sy'n rhannu gwybodaeth yn unol â'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn sicrhau eu bod yn ymwybodol o weithdrefnau llywodraethu gwybodaeth a rheoli cofnodion eu sefydliad a chadw atynt; yn enwedig y darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu, prosesu a datgelu gwybodaeth bersonol.
- 3.3 Dylid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol anghywir yn cael eu dileu neu eu cywiro heb oedi. Rhaid ystyried hysbysu sefydliadau partner y gallent fod wedi derbyn gwybodaeth anghywir. Mewn amgylchiadau lle na ellir hysbysu sefydliadau partner, dylid cael cyngor gan arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth (neu gyfatebol).

### 4 Pwerau deddfwriaethol/statudol

**NI DDYLAI STAFF OEDI CYN RHANNU GWYBODAETH BERSONOL ER MWYN ATAL CAM-DRIN NEU NIWED DIFRIFOL, MEWN ARGYFWNG NEU MEWN SEFYLLFAOEDD ALLAI BERYGLU BYWYD.**

**OS OES PRYDERON YN YMWNEUD Â MATERION AMDDIFFYN PLANT NEU OEDOLION, RHAID DILYN Y GWEITHDREFNAU SEFYDLIADOL PERTHNASOL**

- 4.1 Mae'r trefniadau rhannu a ddisgrifir yn y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn ystyried y ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, Deddf Hawliau Dynol 1998 a dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin.

4.2 Cyn rhannu gwybodaeth bersonol, rhaid i sefydliadau partner fod wedi nodi sail gyfreithiol glir dros wneud hynny.

4.3 Mae deddfwriaeth diogelu data yn cynnwys y cysyniadau canlynol:

- **'data personol'**; unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol adnabyddadwy (byw), a
- **'categoriâu arbennig o ddata' / 'prosesu sensitif'**; data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometrig at ddibenion adnabod person naturiol yn unigryw, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol person naturiol

Er nad yw gwybodaeth am bobl sydd wedi marw yn dod o dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae data am bobl sydd wedi marw yn destun lefel debyg o gyfrinachedd.

4.4 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a chanllawiau ar brosesu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

4.5 Mae angen i sefydliadau partner hefyd sicrhau eu bod yn ystyried Deddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw ofynion ychwanegol y mae'n eu gosod ar ddefnyddio'r seiliau cyfreithiol a nodir yn Erthyglau 6, 9 a 10 o'r GDPR (gweler Rhan 2 o'r Ddeddf) a'u prosesu at 'ddibenion gorfodi'r gyfraith' (gweler Rhan 3 o'r Ddeddf). Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau ar y mater hwn a dylid codi ymholiadau ynghylch perthnasedd unrhyw sail gyfreithiol gydag arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth.

4.6 Ni ddylid drysu caniatâd i brosesu data personol gyda chaniatâd i dderbyn y gwasanaeth. Mae'r ddau ar wahân ac ni ddylid eu cymysgu na'u cyfuno.

## Erthygl 6 Seiliau Cyfreithiol ar gyfer Rhannu Data Personol

| Sail gyfreithiol   | Blwch gwirio / Nodiadau   |
|--|---|
| Caniatâd – Erthygl 6(1)(a)   | <input type="checkbox"/>  |
| Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol – Erthygl 6(1)(c) | <input checked="" type="checkbox"/> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth. Yn enwedig rhan 7 o Ddeddf 2014 :<ul style="list-style-type: none"><li>○ mae adran 128 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid perthnasol adrodd i'r Awdurdod Lleol perthnasol pan fyddant yn amau y gallai pobl fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.</li><li>○ mae adran 126 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ymchwilio pan fyddant yn amau bod oedolyn ag anghenion Gofal a Chymorth mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso</li></ul></li><li>• Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol hyrwyddo neu wella lles cymdeithasol eu hardal. Mae hyn yn rhoi pŵer ymhlyg i rannu gwybodaeth berthnasol gyda gwasanaethau statudol eraill a'r sector annibynnol.</li><li>• Mae Deddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer</li></ul> |

|  |   |
|--|---|
|  | <p>amddiffyn plant yng Nghymru. Mae'r egwyddorion allweddol yn cynnwys natur bwysig lles y plentyn; y disgwyliad a'r gofyniad ynghylch dyletswyddau i ofalu am blant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithdrefnau Diogelu Cymru <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mae Adran 1.4 yn nodi bod rhannu a chyfnewid gwybodaeth rhwng Gweithwyr Proffesiynol yn effeithiol yn hanfodol er mwyn diogelu plant.</li> <li>○ Mae Adran 2.1.2 yn datgan y dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ganiatáu i asiantaethau eraill ac aelodau'r cyhoedd adrodd pryderon am blant, gan gynnwys y tu allan i oriau craidd.</li> <li>○ Mae Adran 3.14.14 yn datgan ei bod yn hanfodol i'r broses o wneud penderfyniadau bod aelodau unigol o staff a gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol a gedwir yn eu cofnodion. Mae cydweithredu llwyddiannus rhwng asiantaethau wrth amddiffyn plant wedi'i wreiddio mewn cyfnewid a rhannu gwybodaeth berthnasol. Ym mhob achos lle mae cam-drin plant yn cael ei honni neu ei amau, mae dyletswydd i rannu'r holl wybodaeth berthnasol. Ym mhob sefyllfa o'r fath, rhaid i amddiffyniad y plentyn gael blaenoriaeth.</li> </ul> </li> <li>• Sefydlodd Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwylf 2006 yr Awdurdod Diogelu Annibynnol i wneud penderfyniadau am unigolion y dylid eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed a chynnal rhestr o'r unigolion hyn.</li> <li>• Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn deddfu ar gyfer yr argymhellion ym mhapur gwyn Materion Gofal (AdAS, 2007) i ddarparu gofal a gwasanaethau o ansawdd uchel i blant mewn gofal.</li> <li>• Mae Deddf Addysg 2011 yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.</li> <li>• Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gwella trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</li> <li>• Mae adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn caniatáu i unrhyw berson ddatgelu gwybodaeth i awdurdod perthnasol 'pan fo datgeliad yn angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion y Ddeddf (lleihau ac atal trosedd ac anhrefn)'. 'Awdurdodau perthnasol', yn fras, yw'r heddlu, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd (grwpiau comisiynu clinigol) a byrddau prawf lleol.</li> </ul> |
| Amddiffyn diddordebau hanfodol – Erthygl 6(1)(d)                                   | ☒   |
| Tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol – Erthygl 6(1)(e) | ☒   |
| A yw'r prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith?                                    | ☒<br><b>Deddf Diogelu Data 2018, Rhan 3 – Para 35(2)</b>  |

|  |  |
|--|--|
|  | (b) Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir at y diben hwnnw gan awdurdod cymwys |
|--|--|

## Erthygl 9 Seiliau Cyfreithiol ar gyfer Rhannu Categorïau Arbennig o Ddata Personol

| Sail gyfreithiol  | Blwch Gwirio / Nodiadau  |
|---|--|
| Caniatâd Penodol – Erthygl 9(2)(a)  | <input type="checkbox"/>   |
| Cyfraith cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a diogelu cymdeithasol – Erthygl 9(2)(b)   | <input checked="" type="checkbox"/>  |
| Buddiannau hanfodol testun y data neu drydydd parti lle nad ydynt yn gallu rhoi caniatâd – Erthygl 9(2)(c)                              | <input type="checkbox"/>   |
| Angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd - Erthygl 9(2)(g)   | <input type="checkbox"/>   |
| Darparu meddyginiaeth, triniaeth neu ofal cymdeithasol neu driniaeth, neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol – Erthygl 9(2)(h) | <input checked="" type="checkbox"/>  |
| Iechyd y Cyhoedd - Erthygl 9(2)(i)  | <input type="checkbox"/>   |
| Ymchwil – Erthygl 9(2)(j)   | <input type="checkbox"/>   |
| A yw'r prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith?   | <input checked="" type="checkbox"/> <p><b>Deddf Diogelu Data 2018, Rhan 3 – Para 35(5)</b></p> <p>(a) Mae'r prosesu yn gwbl angenrheidiol at ddibenion gorfodi'r gyfraith</p> <p>(b) mae'r prosesu yn bodloni o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 8, ac</p> <p>(c) ar yr adeg pan gyflawnir y prosesu, mae gan y rheolwr ddogfen bolisi briodol yn ei lle</p> <p>Ymhellach i Ran 35(5) (b) uchod, amodau Atodlen 8:</p> <p><b>1 - Dibenion statudol ac ati.</b></p> <p>Mae'r prosesu</p> <p>(a) yn angenrheidiol er mwyn arfer swyddogaeth a roddwyd i berson gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol, a</p> <p>(b) yn angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd.</p> <p><b>3 - Amddiffyn buddiannau allweddol i fywyd yr unigolyn.</b></p> <p>Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd testun y data neu unigolyn arall.</p> <p><b>4 - Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl.</b></p> <p>(a) Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion</p> <p>(i) amddiffyn unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu</p> <p>(ii) diogelu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn;</p> |

**Tabl 3 - Erthygl 10 - Data Personol am euogfarnau troseddol, troseddau neu fesurau diogelwch cysylltiedig**

|   |  |
|---|--|
| Rhannu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol, troseddau neu fesurau diogelwch cysylltiedig | Mae'r prosesu:<br><input checked="" type="checkbox"/> Yn cael ei gyflawni o dan reolaeth awdurdod swyddogol / awdurdod cymwys<br>_____ a/neu _____ |
|   | <input type="checkbox"/> Yn bodloni amod perthnasol yn Rhan 1, 2 neu 3 o Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Yr amod perthnasol yw:              |

**Tabl 4 - Awdurdodau cymwys at ddibenion gorfodi'r gyfraith**

|   |   |
|---|---|
| Prosesu <b>data personol</b> at ddibenion gorfodi'r gyfraith                                    | Mae Deddf Diogelu Data 2018, Rhan 3, Pennod 2, Adran 35(2) yn amlinellu'r seiliau cyfreithiol ar gyfer rhannu data personol at ddibenion gorfodi'r gyfraith. Mae'r prosesu'n seiliedig ar y gyfraith ac (dewiswch un):<br><input type="checkbox"/> 35(2)(a) Mae testun y data wedi rhoi caniatâd.<br>_____ neu _____  |
|   | <input checked="" type="checkbox"/> 35(2)(b) Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir at y diben hwnnw gan awdurdod cymwys.  |
| Prosesu sensitif / prosesu categorïau arbennig o ddata personol at ddibenion gorfodi'r gyfraith | Mae Deddf Diogelu Data 2018, Rhan 3, Pennod 2, Adran 35(3) yn amlinellu'r seiliau cyfreithiol ar gyfer rhannu categorïau sensitif / arbennig o ddata at ddibenion gorfodi'r gyfraith.<br>Y sail gyfreithiol yw (dewiswch un):<br><input type="checkbox"/> 35(4) Mae testun y data wedi rhoi caniatâd<br>_____ neu _____   |
|   | <input checked="" type="checkbox"/> 35(5) Mae'r prosesu'n gwbl angenrheidiol at ddibenion gorfodi'r gyfraith, ac<br>Yn bodloni amod perthnasol yn Atodlen 8. Yr amod perthnasol yw:<br>4(1)Mae'r amod hwn yn cael ei fodloni os—<br>(a) mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion—<br>(i) amddiffyn unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu<br>(ii) diogelu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn;<br>(b) mae'r unigolyn—<br>(i) o dan 18 oed, neu<br>(ii) yn 18 oed neu'n hŷn ac mewn perygl,<br>(c) mae'r prosesu'n cael ei wneud heb gydsyniad testun y data am un o'r rhesymau a restrir yn is-baragraff (2), ac<br>(d) mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd. |

## 5 Gwybodaeth bersonol i'w rhannu

- 5.1 Dim ond y **lleiafswm angenrheidiol** o wybodaeth bersonol sy'n gyson â'r dibenion a nodir yn y ddogfen hon y gellir ei rhannu. Dylid defnyddio gwybodaeth ddiennw a gyda ffugenw lle bo hynny'n bosibl.
- 5.2 Yn gyffredinol, ni fydd gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau partner yn cael ei rhyddhau i unrhyw drydydd parti heb ymgynghori ymlaen llaw â'r sefydliad partner gwreiddiol.
- 5.3 Mae tabl cyfeirio gwybodaeth yn Atodiad B yn rhoi manylion y cyfnewidiadau gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn, gan gynnwys y categorïau nodweddiadol o wybodaeth a rennir, y sefydliadau dan sylw a'r rhannau o'r sefydliad sy'n gysylltiedig fel arfer. Fel rheolwyr yn eu rhinwedd eu hunain, mae sefydliadau partner yn gyfrifol am sicrhau bod gan y staff priodol fynediad at wybodaeth bersonol sy'n ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben a fwriadwyd.
- 5.4 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r wybodaeth bersonol a rennir amlaf i nodi testunau data a sicrhau bod sefydliadau partner yn cyfeirio at yr un testun data:

| Dynodwyr personol   | Dewiswch bob un sy'n berthnasol     |
|---|-------------------------------------|
| Enw (gan gynnwys arallenwau)  | <input checked="" type="checkbox"/> |
| Dyddiad geni  | <input checked="" type="checkbox"/> |
| Cyfeiriad   | <input checked="" type="checkbox"/> |
| Cod Post  | <input checked="" type="checkbox"/> |
| Rhif cyfeirnod arall (ee rhif GIG, rhif Yswiriant Gwladol, unrhyw rif system/gwasanaeth ) | <input checked="" type="checkbox"/> |

## 6 Hawliau Testunau Data

- 6.1 Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu hawliau unigol amrywiol ar gyfer testunau data. Dylid ceisio cyngor ar sut y dylid bodloni'r hawliau hyn gan gynrychiolydd Llywodraethu Gwybodaeth pob sefydliad, Swyddog Diogelu Data neu gyfatebol. Mae canllawiau penodol ar yr hawliau hyn ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth; [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)
- 6.2 Mae'r paragraffau canlynol yn cyfeirio at hawliau allweddol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth bersonol.
- 6.3 Oni bai y byddai gwneud hynny yn peri risg o niwed iddynt hwy neu i eraill, neu'n rhwystro unrhyw ymchwiliad neu achos cyfreithiol, dylid hysbysu testunau data ynghylch sut a pham y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a gyda phwy y caiff ei rhannu (yr hawl i gael gwybod). Yn ddelfrydol, bydd y wybodaeth hon – a ddarperir yn aml yn yr hyn y cyfeirir ato amlaf fel hysbysiad preifatrwydd - yn cael ei darparu ar y pwynt cyswllt cyntaf. Gall fod yn rhan o ffurflen gofrestru / caniatâd neu ddogfen annibynnol.
- 6.4 Mae dull aml-haen yn aml yn briodol. Gallai hyn gynnwys datganiad sefydliadol lefel uchel wedi'i ategu gan wybodaeth benodol ar lefel gwasanaeth; er enghraifft, gwefan neu daflen a gwybodaeth ar lafar a ddarperir gan ymarferydd.
- 6.5 Dylai gwybodaeth fod yn glir a dylid cymryd gofal penodol wrth ddibynnu ar gydsyniad fel y sail cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth, neu wrth weithio gyda phlant, gan fod

gofynion ychwanegol i'w hystyried. Mae rhagor o wybodaeth am yr 'Hawl i gael gwybod' ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth; [www.ico.org](http://www.ico.org)

- 6.6 At ddibenion y Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn, dylai sefydliadau partner nodi isod sut maent yn bodloni gofynion yr Hawl i gael gwybod. Yn ddelfrydol, darperir neges gyson, a gall fod yn ddefnyddiol cytuno ar hysbysiad preifatrwydd safonol ar lefel gwasanaeth.

| Enw'r Sefydliad               | Dull Hysbysu   | Enw'r ddogfen / gwefan<br>(ee cyfeiriad gwefan, enw'r daflen/ffurflen)  | Sylwadau |
|-------------------------------|--|---|----------|
| <b>Cyngor Sir Caerfyrddin</b> | Gwefan <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Taflen <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Ffurflen <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Llafar <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Arall (nodwch yn y sylwadau) | <b>Hysbysiadau Preifatrwydd</b> - <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/</a><br><br><b>Taflen</b> - "Gofal Cymdeithasol - Eich Gwybodaeth, Eich Hawliau"<br><br><b>Ffurflen</b> - Ffurflen Atgyfeirio Gofal Cymdeithasol Ar-lein<br><br><b>Llafar</b> – Rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn/unigolion priodol o dan sylw |          |
| <b>Cyngor Sir Penfro</b>      | Gwefan <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Taflen <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Ffurflen <input type="checkbox"/><br><br>Llafar <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Arall (nodwch yn y sylwadau)            | <b>Hysbysiadau Preifatrwydd</b> – <a href="https://www.sir-benfro.gov.uk/addewid-preifatrwydd">https://www.sir-benfro.gov.uk/addewid-preifatrwydd</a><br><br><b>Taflen</b> - "Y Broses Amddiffyn Oedolion"<br><br><b>Llafar</b> - Rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn/unigolion priodol dan sylw  |          |
| <b>Cyngor Sir Ceredigion</b>  | Gwefan <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Taflen <input type="checkbox"/><br><br>Ffurflen <input type="checkbox"/><br><br>Llafar <input checked="" type="checkbox"/><br><br>Arall (nodwch yn y sylwadau)                       | <b>Hysbysiadau Preifatrwydd</b> – <a href="https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/diogelwch-data/hysbysiad-preifatrwydd/">https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/diogelwch-data/hysbysiad-preifatrwydd/</a><br><br><b>Llafar</b> - Rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn/unigolion priodol dan sylw   |          |
| <b>Cyngor Sir Powys</b>       | Gwefan <input checked="" type="checkbox"/>   | <b>Hysbysiadau Preifatrwydd</b> – <a href="https://cy.powys.gov.uk/preifatrwydd">https://cy.powys.gov.uk/preifatrwydd</a>   |          |

|  |   |   |  |
|--|---|---|--|
|  | Taflen <input type="checkbox"/><br>Ffurflen <input type="checkbox"/><br>Llafar <input checked="" type="checkbox"/><br>Arall (nodwch yn y sylwadau)  | <b>Llafar</b> - Rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn/unigolion priodol dan sylw  |  |
| <b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</b>  | Gwefan <input checked="" type="checkbox"/><br>Taflen <input checked="" type="checkbox"/><br>Ffurflen <input type="checkbox"/><br>Llafar <input checked="" type="checkbox"/><br>Arall (nodwch yn y sylwadau) | <b>Hysbysiadau Preifatrwydd:</b><br>Ar gyfer cleifion sy'n oedolion<br>- <a href="https://biphdd.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu/eich-gwybodaeth-eich-hawliau/hysbysiadau-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-llawn1/">https://biphdd.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu/eich-gwybodaeth-eich-hawliau/hysbysiadau-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-llawn1/</a><br>Ar gyfer cleifion iau<br>- <a href="https://www.youtube.com/watch?v=7KVz6afCk9M&amp;t=2s">https://www.youtube.com/watch?v=7KVz6afCk9M&amp;t=2s</a><br><b>Taflen</b> – "Eich gwybodaeth, Eich hawliau"<br><b>Llafar</b> - Rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn/unigolion priodol dan sylw |  |
| <b>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</b>        | Gwefan <input checked="" type="checkbox"/><br>Taflen <input checked="" type="checkbox"/><br>Ffurflen <input type="checkbox"/><br>Llafar <input checked="" type="checkbox"/><br>Arall (nodwch yn y sylwadau) | <b>Hysbysiadau Preifatrwydd –</b><br><a href="http://www.powysthb.wales.nhs.uk/privacy-notice">http://www.powysthb.wales.nhs.uk/privacy-notice</a><br><b>Taflen</b> – "Eich gwybodaeth, eich hawliau"<br><b>Llafar</b> - Rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r unigolyn/unigolion priodol dan sylw   | Commented [NO2]: Error notice when clicking on link. |
